



Yn ogystal â hyn byddwch yn cyflawni'r canlynol:

- cyfrannu at y broses o ymsefydlu'r myfyriwr a'i reolwr/mentor ar gyfer y cymhwyster a'r modiwlau
- rhoi'r cymorth priodol i brentisiaid ag anghenion ychwanegol yng nghyd-destun yr addasiadau rhesymol y mae'r Brifysgol yn eu gwneud i gefnogi dysgwyr o'r fath
- darparu cyswllt a chymorth cyn cychwyn ac ar ôl gorffen modiwl i sicrhau bod y myfyriwr yn pontio'n llwyddiannus
- cynghori ar sut i baratoi ar gyfer newid mewn lefelau astudio (e.e. o lefel 1 i lefel 2, o flwyddyn 1 i flwyddyn 2)
- gweithredu fel pwynt cyswllt i'r prentis ar gyfer ymholiadau ynglŷn â'r rhaglen gan gyfeirio e.e. at y tîm cymorth i fyfyrwyr, rheolwr cyflwyno'r rhaglen brentisiaeth, Tiwtor Staff fel y bo angen
- rhoi cymorth i brentisiaid sy'n gohirio eu hastudiaethau, cymryd seibiannau astudio ac wrth iddynt ailgychwyn
- briffio tiwtor ymarfer nesaf y prentis os/pan fyddant yn trosglwyddo (e.e. o flwyddyn 2 i flwyddyn 3)
- monitro cynnydd grŵp o brentisiaid (yn y cymhwyster)
- hyrwyddo, creu a chynnal cysylltiadau rhwng y rhaglen a chyflogwyr
- rhannu arbenigedd â thiworiaid practis eraill a myfyrio arnynt er budd y prentisiaid
- cymryd rhan mewn gweithgareddau a arweinir gan yr Uned Datblygu Busnes sy'n hyrwyddo parodrwydd sefydliadol ymhlith partneriaid cyflogwyr newydd
- rhoi adborth a'i adrodd yn ôl i randdeiliaid ar brofiadau a pherfformiadau dysgu'r prentisiaid sy'n seiliedig ar ymarfer yn ystod y cymhwyster drwy ddogfennau/adroddiadau a chyfarfodydd penodol
- cynnal a datblygu gwybodaeth ynglŷn â'r cymhwyster e.e.
  - deilliannau dysgu (a'u mapio at safon y DA)
  - cynnwys y cwricwlwm
  - strategaethau addysgu, dysgu ac asesu
- meithrin, datblygu a diweddarau'r sgiliau priodol i weithio yn amgylchedd e-addysgu ac e-ddysgu Y Brifysgol Agored
- rhannu arfer da ac adnoddau gyda thiworiaid ymarfer ac unigolion mewn rolau cysylltiedig
- myfyrio ar weithgareddau a materion sy'n rhan o'r rôl gyda'r rheolwr llinell (Tiwtor Staff) ac adrodd yn ôl arnynt
- cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol perthnasol
- datblygu arfer myfyriol (gan gynnwys datblygu gyrfaoedd a thrafodaethau arfarnu staff)
- bod yn gyfarwydd â phobl a phrosesau Y Brifysgol Agored sy'n rhan o'r radd

### *Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd gyntaf neu uwch
- profiad ym maes cyfrifiadura a TGCh gan gynnwys tystiolaeth o un neu fwy o'r canlynol:
  - gradd gyntaf a/neu radd uwch mewn maes cytras
  - cymwysterau proffesiynol sy'n cyfateb i'r uchod
  - statws siartredig â sefydliad perthnasol
  - profiad proffesiynol sylweddol mewn diwydiant perthnasol (caiff hyn ei ffafrio)
- adnabyddiaeth o, neu barodrwydd i ddatblygu adnabyddiaeth o, y modiwlau bydd y prentisiaid yn eu hastudio.
- hyblygrwydd i gynnal adolygiadau cynnydd cyson, gyda'r gallu a pharodrwydd i ymweld â phrentisiaid yn eu lleoliad gwaith, ac i gynnal adolygiadau cynnydd ar-lein
- sgiliau mewn diplomyddiaeth, negodi a chyfathrebu
- gwerthfawrogiad o anghenion dysgwyr sy'n oedolion a'r ffordd y mae oedolion yn dysgu mewn cyd-destunau sy'n seiliedig ar waith
- y gallu i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i addysgu a chefnogi prentisiaid
- dealltwriaeth o bolisiau ac arferion cyfle cyfartal ac ymrwymiad iddynt
- ymrwymiad i ddatblygiad personol a phroffesiynol eich hun

Yr iaith addysgu yw Saesneg a dylai eich hyfredded yn Saesneg fod yn ddigonol i fodloni holl ofynion y rôl.

Dylech feddu ar gyfrifiadur eich hun â mynediad i'r rhyngrwyd.

Er mwyn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer y brentisiaeth hon, mae angen i'r Brifysgol ddarparu o leiaf un Tiwtor Ymarfer sy'n gallu rhoi cymorth i fyfyrwyr sy'n nodi'r Gymraeg fel eu dewis iaith.

Felly, byddai profiad o roi cymorth i fyfyrwyr sy'n nodi'r Gymraeg fel eu dewis iaith yn fanteisiol hefyd.

Mae rolau Tiwtoriaid Ymarfer sy'n rhoi cymorth i fyfyrwyr sy'n nodi'r Gymraeg fel eu dewis iaith hefyd yn ofynnol a chaiff y rolau hyn eu hysbysebu ar wahân.

*Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Lefel y gofynion TGCh:	1
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	5
Band cyflog:	5
Oriau yr amcangyfrifir fesul wythnos addysgu:	3.30

\*Caiff Tiwtoriaid Ymarfer sy'n gweithio ar y cyflwyniad cyntaf (mis Hydref 2018) eu cyflogi ar gontract o fis Chwefror i fis Medi 2019 ac felly bydd y cyflog ar sail pro-rata (caiff 2/3 o gyflog y modiwl a gaiff ei dalu dros 8 mis).

*Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei gymeradwyo eto ac felly mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.*